# DRAFT MINUTES

| | |
|---|---|
| Meeting ID | 2278 |
| Committee | Pwllgor Craffu Addysg a Dysgu |
| Date | 01/04/2021 |
| Attendees | Cynghorwyr Haydn Trollope (Cadeirydd)<br>Cynghorwyr Julie Holt (Is-gadeirydd)<br>Cynghorwyr Derrick Bevan (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Garth Collier (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Martin Cook (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Malcolm Day (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr D. Lyn Elias (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr John Hill (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Clive Meredith (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr John C. Morgan (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorydd John P. Morgan (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Lee Parsons (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Tommy Smith (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Bob Summers (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr David Wilkshire (Aelod Pwyllgor)<br>Mr. Tim Baxter (Co-Optee)<br>Mr. Alun Williams (Co-Optee)<br>Lynn Phillips (Swyddog)<br>Michelle Jones (Swyddog)<br>Gavin Metheringham (Swyddog)<br>Claire Gardner (Swyddog)<br>Joanne Sims (Swyddog)<br>Luisa Munro-Morris (Swyddog)<br>Gemma Wasley (Swyddog)<br>Liz Thomas (Swyddog)<br>Leeann Turner (Secretary)<br>Gwasanaethau Democrataidd (Notify)<br>Pob Cynghorydd (Notify)<br>Louise Bishop (Notify)<br>Sean Scannell (Notify)<br>Richard Crook (Notify)<br>Rhian Hayden (Notify)<br>Damien McCann (Notify)<br>Michelle Morris (Notify)<br>Steve Berry (Swyddog)<br>Andrea Jones (Swyddog)<br>Cynghorwyr Joanne Collins (Notify) |

| | |
|---|---|
| Item ID | 4622 |
| Item Title | Cyfieithu ar y Pryd |
| Summary | Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 4623 |
| Item Title | Ymddiheuriadau |
| Summary | Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr G. Collier a D. Wilkshire.<br><br>**<u>Aelod Cyfetholedig</u>**<br>Tim Baxter<br><br>Rheolwr Gwasanaeth Cynhwysiant |

| | |
|---|---|
| Item ID | 4624 |
| Item Title | Datganiadau Buddiant a Goddefebau |
| Summary | Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau.<br><br>**<u>DIWEDDARIAD LLAFUR – PANDEMIG COVID-19</u>**<br><br>Ar gais y Cadeirydd, rhoddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg y diweddariad diwethaf ar ymateb y Gyfarwyddiaeth i'r pandemig Covid-19.<br><br>Roedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ar 5 Mawrth fod mwy o ddisgyblion i ddychwelyd i ddysgu wyneb i wyneb. Mae'r Gyfarwyddiaeth wedi gweithio'n agos gyda phenaethiaid ysgol i fabwysiadu dull gweithredu cyffredin ar draws y stad ysgolion er mwyn i ddysgwyr ddychwelyd yn ehangach ac o 15 Mawrth roedd hynny wedi cynnwys pob disgybl cynradd yn mynychu eu hysgol yn llawn-amser. Mae dysgwyr Blwyddyn 11 wedi mynychu o'r un dyddiad ond roedd rhywfaint o hyblygrwydd ar gyfer elfen o ddysgu a bell a gaiff ei phenderfynu gan yr ysgol unigol a'i gyfathrebu i rieni fel sy'n briodol. Roedd hefyd ddarpariaeth ar gyfer disgyblion blwyddyn 10 i baratoi ar gyfer asesiadau Cyfnod Allweddol 4 yn ystod tymor yr haf. Yn ychwanegol at hynny, cynigiwyd sesiwn ailgydio diwrnod llawn i holl ddysgwyr blynyddoedd 7, 8 a 9 cyn cyfnod gwyliau'r Pasg i wirio eu cynnydd a'u lles yn gyffredinol.<br><br>Yng nghyswllt y sefyllfa am achosion positif Covid-19, effeithiwyd ar 5 ysgol. Roedd 5 achos positif ymhlith disgyblion a 4 achos positif ymhlith staff, yn cynnwys un aelod o staff o Ail Gyfleoedd. Cyn diwedd tymor y gwanwyn, effeithiwyd ar 180 o ddysgwyr oherwydd eu bod yn hunanynysu am yr ystyriwyd eu bod yn rhan o grŵp cyswllt. Mae'r Cyfarwyddwr yn rhagweld cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru am ddychwelyd yn llawn ar gyfer dysgu wyneb-i-wyneb ar gyfer pob dysgwr o 12 Ebrill. Cadarnhaodd fod ysgolion wedi paratoi'n dda ar gyfer penderfyniad o'r fath ar ôl gwyliau'r Pasg a |

| | |
|---|---|
| | chafodd pob ysgol y profion llif unffordd disgwyliedig ar gyfer staff.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am unedau profion symudol, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Addysg y bwriad i ddod ag unedau profion symudol yn ôl i Flaenau Gwent. Esboniodd ei bod yn debyg y byddai cynnydd mewn achosion cadarnhaol oherwydd gwyliau banc y Pasg a dychwelyd i ddysgu wyneb i wyneb ond rhoddodd sicrwydd i Aelodau fod ysgolion wedi paratoi'n dda a bod asesiadau risg sicrwydd Covid ar waith. |

| Item ID | 4627 |
|---|---|
| Item Title | Dalen Weithredu – 9 Mawrth 2021 |
| Summary | Cyflwynwyd y ddalen weithredu yn deillio o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu a gynhaliwyd ar 9 Mawrth, yn cynnwys:-<br><br>**<u>Grantiau a ddyfarnwyd i'r Gyfarwyddiaeth Addysg</u>**<br><br>Nodwyd, oherwydd camgymeriad, y byddid yn newid Atodiad 2 ar system Modern.Gov yn dilyn y cyfarfod.<br><br>Yng nghyswllt cyllid dogn, dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg y byddai'n cydlynu gyda chydweithwyr cyllid ac yn rhoi diweddariad i Aelodau.<br><br>Holodd Aelod pam nad oedd cyllid Grant Amddifadedd Disgyblion wedi ei restru ar Atodiad 2. Esboniodd y Cyfarwyddwr Addysg mai dim ond cyllid a dderbyniwyd yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru a restrir yn Atodiad 1 yn unol â'r cais gwreiddiol. Caiff y Grant Amddifadedd Disgyblion ei weinyddu drwy EAS.<br><br>Teimlai Aelod ei bod yn bwysig cael gwybodaeth ar gyllid Grant Amddifadedd Disgyblion gan y caiff yn awr ei asesu bob 3 blynedd a gallai ysgolion weld gostyngiad sylweddol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg y rhoddir gwybodaeth am gyllid y Grant Amddifadedd Disgyblion ar gyfer blynyddoedd 2019/20 a 2020/21 ar gyfer y cyfarfod nesaf drwy'r Ddalen Weithredu a dywedodd eto y caiff ei weinyddu'n rhanbarthol gan EAS. Esboniodd y Cyfarwyddwr mai oherwydd meini prawf y caiff y Grant ei ddosbarthu drwy'r consortia rhanbarthol, fodd bynnag mae EAS yn defnyddio'r wybodaeth a gyflwynir gan y Cyngor yng nghyswllt nifer y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim i benderfynu lefel y Grant i'r Cyngor. Bu cynnydd yn nifer y dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim ac roedd tua 1,700 yn derbyn taliadau uniongyrchol. Caiff y broses ei monitro'n wythnosol a lansiwyd ceisiadau yn unol â dymuniadau ysgolion gan gydlynu'n gyson gyda rheini er mwyn diwallu anghenion teuluoedd.<br><br>Holodd Aelod os caiff ffioedd gweinyddiaeth eu tynnu o'r grantiau a roddir. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod Llywodraeth Cymru yn cynnig swm bach iawn o gyllid ar gyfer gweinyddu'r grant. Mae cyfanswm y gyllideb a ddirprwywyd a gaiff ei throsglwyddo'n uniongyrchol i ysgolion tua 86%. |

| | |
|---|---|
| | Cyfeiriodd y Cadeirydd at Atodiad 1 a chododd bryder am y swm bach o grantiau a dderbynnir ar gyfer prosiectau tebyg i Gwnsela Ysgolion a Phrosiect Gweithgaredd Haf Ysgolion. Eglurodd y Cyfarwyddwr Addysg fod y swm hwn yn ychwanegol at y cyllid a dderbyniwyd eisoes gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y gwasanaeth Cwnsela Ysgolion. Mae'n cydnabod y galw ychwanegol a fu ar y gwasanaeth a byddai'n ategu'r gyllideb a dderbyniwyd eisoes. Yng nghyswllt y £6,000 ar gyfer y Prosiect Gweithgaredd Haf Ysgolion, mae hyn yn gysylltiedig gyda'r Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol i gefnogi dysgwyr mewn cyfnodau o wyliau ysgol. Byddai'r Rheolwr Trawsnewid Addysg yn rhannu'r adroddiad deilliant o gynllun y llynedd i ddangos peth o'r gwaith a wnaethpwyd.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor, yn amodol ar yr uchod, i nodi'r ddalen weithgaredd. |

| Item ID | 4628 |
|---|---|
| Item Title | Cynnig i Ymgynghori ar gynyddu capasiti Pen y Cwm |
| Summary | Cyfeiriodd Aelod at wrthdaro buddiant gan fod rhai Aelodau o'r Pwyllgor hwn hefyd yn Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio, Rheoleiddio a Thrwyddedu Cyffredinol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg na chredai y bydd gwrthdaro buddiant gan y byddai'r drafodaeth yn rhoi sylw i'r potensial ar gyfer ailwampio adeilad presennol Ysgol Pen y Cwm ond na fyddai'n canolbwyntio ar fanylion o safbwynt cynllunio a theimlai y gallai Aelodau gymryd rhan a chynnig eu barn a'u sylwadau am y cynnig.<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a gyflwynwyd i geisio barn y Pwyllgor Craffu ac Addysg yng nghyswllt y cynnig i ymestyn capasiti Ysgol Arbennig Pen y Cwm o 120 i 175 disgybl, gan ateb y galw am leoedd. Byddai'r Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu yn ymgynghorai statudol os bydd y Pwyllgor Gweithredol yn rhoi caniatâd i'r cynnig i symud ymlaen at ymgynghoriad.<br><br>Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Addysg yr adroddiad a thynnu sylw at y prif bwyntiau ynddo.<br><br>Tynnodd y Cyfarwyddwr Addysg sylw at ddiwygiad yn yr adroddiad ym mharagraff 2.13 sef bod yr ymgynghoriad i ddod i ben ddydd Sul 6 Mehefin 2021, ac nid 6 Mai fel y nodir yn yr adroddiad.<br><br>Holodd Aelod os byddai angen staff ychwanegol pe byddai'r ysgol yn cyrraedd ei chapasiti llawn. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg y gallai unrhyw oblygiadau staffio ychwanegol gael eu trin yn y gwahaniaethyn posibl rhwng y gyllideb bresennol a'r gyllideb arfaethedig, a fyddai'n £575,000 ychwanegol, yn dibynnu ar anghenion dysgwyr. Byddai angen o bosibl i'r elfen honno o'r gyllideb i gyllido staff ychwanegol i gefnogi dysgwyr yn y safle.<br><br>Cododd Aelod bryderon am y nifer fach o leoliadau tu allan i'r sir y darperir ar eu cyfer. Dywedodd y Rheolwr Trawsnewid Addysg y cynhaliwyd yr |

adolygiad dechreuol gan y tîm Cynhwysiant, fodd bynnag byddai angen adolygiad mwy manwl yn y dyfodol. Caiff lleoliadau tu allan i'r sir eu penderfynu ar yr anghenion ac amgylchiadau sy'n gysylltiedig gyda phob disgybl unigol ac yn yr adolygiad dechreuol rhagwelwyd mai 5 oedd y nifer uchaf y gellid dod â nhw'n ôl i'r Awdurdod Lleol ar hyn o bryd. Lle mae capasiti ac y gallai anghenion disgyblion unigol gael eu diwallu o fewn yr Awdurdod Lleol yna byddai'r tîm yn edrych ar ddod â mwy o leoliadau allan o'r sir yn ôl i'r Awdurdod Lleol.

Yng nghyswllt y capasiti hysbysodd y Cyfarwyddwr Addysg yr Aelodau mai'r capasiti yn y tymor byr yw 175 disgybl. Byddai cam 2 yn ystyried y trefniadau mwy tymor canol i hirdymor a'r potensial i gynyddu capasiti ymhellach mewn blynyddoedd dilynol.

Holodd Aelod os byddai'r capasiti o 175 disgybl yn ddigonol yn y dyfodol agos neu os byddai mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael yn yr ysgol eto gyda'r cynnydd yn nifer disgyblion ADY. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg fod y ffocws ar ddelio gyda galw yn y dyfodol rhagweladwy ond wedyn byddai angen adolygu capasiti yn yr ysgol fel rhan o gam 2. Ychwanegodd y Rheolwr Trawsnewid Addysg fod y ffocws ar y blaenoriaethau cyntaf a thrin y gwaith a wnaeth yr ysgol eisoes am ailgyflunio'r amgylchedd addysgu a dysgu. Yng nghyswllt cynyddu capasiti ar gyfer yr ysgol yn union gyda galw posibl yn y dyfodol, mae cyfres o opsiynau yn cael eu hystyried megis ehangu neu estyniad posibl ar yr ysgol, neu leoliadau ategol gydag ysgolion gyda chapasiti digonol i ddarparu ar gyfer hyn. Ategodd fod y ffocws ar ddatrys materion tymor byr i dymor canol a oedd wedi digwydd fel canlyniad i'r cynnydd mewn galw a ragwelir ar hyn o bryd, yna edrych ar yr hirdymor gyda'r datrysiad cynaliadwy a gorau ar gyfer Pen y Cwm.

Yng nghyswllt categoreiddio addasrwydd adeiladau, esboniodd y Rheolwr Trawsnewid Addysg mai'r un ffactor allweddol i gyflawni categori A fyddai ymestyn capasiti gan fod mwy o alw nag o leoedd ar gael yn yr ysgol ar hyn o bryd ac nad yw'n cynnig lefel y ddarpariaeth a gynigiwyd yn flaenorol gan y bu'n rhaid ailwampio rhai ardaloedd arbenigol, tebyg i ardaloedd technoleg a chelf, i gael eu defnyddio fel gofodau addysgu a dysgu yn hytrach nag fel ardaloedd arbenigol. Cadarnhaodd y byddai'r categori addasrwydd yn newid i A pe byddai'r cynnig i gynyddu capasiti yn Ysgol Pen y Cwm yn cael ei gymeradwyo.

Cyfeiriodd Aelod at y 20 lleoliad allan o'r sir a gofynnodd pa faterion sy'n atal Ysgol Pen y Cwm rhag cymryd mwy o'r lleoliadau hyn. Esboniodd y Rheolwr Trawsnewid Addysg fod hyn yn dod o fewn cylch gorchwyl y tîm Cynhwysiant, ond y gallai un rhwystr posibl fod yng nghyswllt plant sy'n derbyn gofal a all fod angen lleoliadau allan o'r sir oherwydd eu hamgylchiadau unigol. Mae'r Gyfarwyddiaeth yn ymroddedig i adolygiad llawn o anghenion y disgyblion hynny ac os oedd eu hanghenion yn gysylltiedig gyda chyfleusterau neu rywbeth y gellid ei ddatblygu'n fwy lleol, yna symudid ymlaen â hynny.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am gostau cyfalaf o tua £250,000,

| | |
|---|---|
| | eglurodd y Cyfarwyddwr Addysg fod costau cyfalaf yn gysylltiedig gyda'r ailwampio. Fodd bynnag byddai'r rhain yn cael eu cyllido drwy grantiau Llywodraeth Cymru a ddyrannwyd fel nad oedd unrhyw effaith uniongyrchol ar raglen cyfalaf y Cyngor.<br><br>Holodd y Cadeirydd sut y caiff ystyriaethau iechyd a diogelwch eu trin yng nghyswllt disgyblion, staff a chontractwyr tra bod y gwaith ailwampio yn mynd rhagddo. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg y caiff y rhan fwyaf o'r gwaith ailwampio sylweddol ei wneud tu allan i'r adegau pan mae dysgwyr yn bresennol, ond y gallai hyn olygu ymestyn y cyfnod contract ar ôl mis Medi 2021. Dywedodd y Rheolwr Trawsnewid Addysg y byddid yn sefydlu tîm Rheoli Prosiect i oruchwylio'r cyfnod adeiladu, gan weithio'n agos gyda'r ysgol a'r contractwr. Caiff gwaith ei wneud mewn camau yn unol â hynny gyda'r rhan fwyaf o'r gwaith yn digwydd mewn ardaloedd na chaiff eu defnyddio ar hyn o bryd o safbwynt addysgu a dysgu. Gallai'r gwaith ym mhrif gorff yr adeilad, a fedrai o bosibl effeithio ar ddysgwyr, ei wneud tu allan i oriau agor yr ysgol. Gallai hyn olygu estyniad bach ar y contract. Byddai'r tîm Rheoli Prosiect yn cydlynu'n agos iawn gyda'r ysgol am ddatrysiadau rheoli dros dro i leihau ymyrryd ar ddysgwyr.<br><br>Gofynnodd y Cadeirydd os cafodd materion parcio eu hystyried, gyda'r cynnydd yng nghapasiti yr ysgol. Dywedodd y Rheolwr Trawsnewid Addysg y cynhelir asesiad o'r effaith ar drafnidiaeth i edrych ar y goblygiadau cysylltiedig. Caiff y rhan fwyaf o'r disgyblion eu cludo i'r ysgol a byddai mwyafrif y disgyblion ar y rhestr aros hefyd angen cludiant rhwng y cartref a'r ysgol. Rhoddir ystyriaeth i ailgyflunio cludiant rhwng y cartref â'r ysgol yn ôl oedran yn hytrach nag ardal. Mae'r ysgol yn ystyried ymgynghori ar newidiadau i amser sesiynau h.y. disgyblion cynradd yn cyrraedd ar wahân i ddisgyblion uwchradd ac ôl 16 i sicrhau llif mwy effeithiol o draffig i'r safle. Gwnaed newidiadau i'r rheoliadau am ddyddiau ysgol ac amserau sesiynau ysgolion yn ystod Covid, ac mae hyn wedi galluogi'r ysgol i beilota'r newidiadau posibl i amserau sesiwn. Gan fod hyn wedi gweithio'n dda i'r ysgol, byddent yn edrych ar fynd â hyn ymlaen yn amodol ar ymgynghoriad.<br><br>Awgrymodd y Cadeirydd y dylid gwahodd cynrychiolydd priodol o Ysgol Arbennig Pen y Cwm i fynychu a chymryd rhan yn y sesiwn ymgynghori. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Addysg y gwahoddir cynrychiolydd o'r ysgol i gymryd rhan yn y sesiwn ymgynghori.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1; sef derbyn yr adroddiad, y ddogfen gysylltiedig a'r llwybr gweithredu. |